



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Y Strategaeth Genedlaethol Ddrafft ar gyfer
Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng
Nghymru

Chwefror 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol Ddrafft newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yng Nghymru rhwng 24 Mehefin a 16 Medi 2019. O dan Adran 8 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddatblygu Strategaeth. Unwaith y caiff ei mabwysiadu, bydd y Strategaeth ddrafft hon yn disodli'r Strategaeth gyntaf a gyhoeddwyd yn 2011.

Yn ystod yr ymarfer ymgynghori hwn, gofynnwyd am eich barn ynghylch sut rydym yn bwriadu rheoli'r perygl rhag llifogydd ac erydu arfordirol ar draws Cymru.

Y broses ymgynghori

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru ym mis Mehefin 2019. Gofynnwyd 12 o gwestiynau er mwyn eich helpu i ymateb.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru, a gwahoddwyd rhanddeiliaid i ymateb naill ai drwy e-bost, drwy'r post, neu ar-lein. Cynhaliwyd tri gweithdy hefyd a oedd yn agored i'r cyhoedd:

- Aberystwyth: Dydd Gwener 12 Gorffennaf 2019
- Cyffordd Llandudno: Dydd Mercher 31 Gorffennaf 2019
- Parc Cathays Caerdydd: Dydd Gwener 2 Awst 2019

Daeth 61 o ymatebion ysgrifenedig i law a gwnaethom gasglu safbwyntiau a sylwadau ychwanegol yn y gweithdai. Daeth yr ymatebion ysgrifenedig oddi wrth:

- 12 o Awdurdodau Lleol
- 9 Corff cyhoeddus
- 3 Elusen
- 2 Bwyllgor
- 3 Phrifysgol
- 5 Cyrff Aelodaeth
- 6 Sefydliad anllywodraethol
- 4 Cwmni preifat
- 6 Ymateb Personol
- 11 ymateb oddi wrth y rheini sydd wedi dewis cyfrannu'n ddiennw

Mae'r crynodeb hwn yn nodi'r safbwyntiau a'r sylwadau sydd wedi dod i law mewn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad. Gan mai dogfen grynhoi yw hon, nid yw'n cynnwys pob sylw manwl, ond yn hytrach mae'n rhoi sylw i'r themâu a'r materion allweddol sy'n ailgodi gan yr ymatebwyr. Rydym wedi defnyddio dyfyniadau (yn llawn neu'n rhannol) i helpu i adlewyrchu themâu cyffredin neu deimladau penodol. Nid yw'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn yn golygu o reidrwydd bod Llywodraeth Cymru yn eu cymeradwyo nac y gallwn sicrhau y byddant yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth derfynol.

Yr Ymatebion

Cwestiwn 1

Nod y Strategaeth Genedlaethol yw 'Sicrhau bod y risgiau i bobl a chymunedau yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol yn cael eu rheoli'n effeithiol'.

Ydi hyn yn glir ac yn ddealladwy?

Os nad ydyw, eglurwch sut y gellir ei wella?

Cafwyd 50 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- 33 yn cytuno (66%)
- 17 yn anghytuno (34%)

Roedd 38 o'r ymatebion yn cynnig sylwadau pellach ac yn awgrymu gwelliannau. Roedd rhai sylwadau yn ymwneud â chwestiynau eraill yr ymgynghoriad, ac felly cawsant eu hystyried dan y maes mwyaf perthnasol.

Roedd y rhan fwyaf o blaid y cynigion ac yn cytuno bod y Strategaeth Genedlaethol newydd yn welliant, gyda phwyslais ar amcanion a mesurau y mae modd eu cyflawni. Ar y cyfan, croesawyd y ffocws ar 'bobl a chymunedau' wrth wraidd y nod.

"Gellirgwella'r nod drwy ychwanegu 'drwy gydweithio, gan addasu i heriau'r newid yn yr hinsawdd.'" Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) #18

Cwestiynwyd y term 'rheoli'n effeithiol' am ei fod yn oddrychol ac yn anodd ei fesur. Daeth rhagor o sylwadau i law ynghylch her y newid yn yr hinsawdd a bod angen egluro termau megis 'ymaddasu arfordirol' i sicrhau cysondeb.

“Mae angen i'r risgiau a berir gan y newid yn yr hinsawdd gael eu cyfathrebu'n gliriach.” **Extinction Rebellion #127187812**

“Tra bod y strategaeth yn ymdrin yn effeithiol a risg i asedau, mae'r risg i gymunedau a phobl yn sgil effeithiau newid hinsawdd yn llawer mwy...” **Cyngor Gwynedd #33**

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 1

Mae rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth i law ar nod y Strategaeth Genedlaethol yn dweud ei fod yn fwy clir a chadarn. Roedd sawl sylw, fodd bynnag, yn ymwneud â'r angen i gryfhau'r derminoleg a sicrhau cysondeb er mwyn darparu mwy o eglurder, a byddwn yn mynd ati i ystyried hyn.

Cwestiwn 2

A yw'r amcanion a'r mesurau yn glir?

Os nad ydyw, eglurwch sut y gellir eu gwella.

Cafwyd 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- 35 yn cytuno (73%)
- 13 yn anghytuno (27%)

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid lleihau nifer y mesurau yn ogystal â'u ffocws ar weithredu. Roedd rhai wedi dweud bod hyn yn gwneud y ddogfen yn gliriach, gan gynnig ffordd fwy clyfar o gyflawni'r amcanion. Fodd bynnag, mynegwyd bod llawer o'r mesurau yn gymharol fyrdymor a'r ffaith nad yw hynny'n cyd-fynd â dyhead Strategaeth Genedlaethol sy'n golygu y dylai ystyried risgiau dros y tymor canolig a'r tymor hir hefyd.

Mynegodd y **Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCEC)** y canlynol:

"Mae rhan fwyaf o'r Mesurau a nodwyd (14 o 22) i'w cwblhau erbyn 2022 neu ynghynt. Byddai'n dda gweld nodau a thargedau mwy hirdymor gan fod oes y Strategaeth yn 8 mlynedd. Nid yw hyn i ddweud nad yw'r targedau byrdymor yn briodol, ond gellir eu cyflwyno bob hyn a hyn, gyda nodau byrdymor (2022), tymor canolig (8 mlynedd) a hyd yn oed rhai mwy hirdymor yn cael eu pennu..."

Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am eglurder yr amcanion a'r mesurau:

"Mae'r 2 amcan arfaethedig yn adlewyrchu'n glir y gweithgareddau a'r meysydd allweddol y canolbwyntir arnynt i sicrhau bod nod y Strategaeth Genedlaethol ddrafft yn cael ei gyflawni. Mae'r amcanion yn glir ac yn deillio o weithgareddau cyfredol sydd eisoes yn cael eu cyflawni gan Awdurdodau Rheoli Risg a gwasanaethau eraill. . ." ac "mae CLILC yn croesawu'r gostyngiad o ran mesurau gan fod hynny'n gwneud y ddogfen yn gliriach yn ogystal â chynnig ffordd fwy clyfar o gyflawni'r amcanion" **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) #12**

Ymhlith yr ymatebion eraill roedd:

"Mae'r 5 amcan yn glir iawn a chyson" ac "O ran y mesurau, maent yn glir ynghylch y ffordd y byddant yn cefnogi amcanion y Strategaeth a chânt eu croesawu gan eu bod yn darparu ffordd ymlaen gadarnhaol" **Dinas a Sir Abertawe #126958976**

Nododd CNC sut y "mae'r 5 Amcan gyda'i gilydd yn manylu'n dda ar y meysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod oes y Strategaeth a dylai ddarparu fframwaith da y gellir ei ddefnyddio i ddod â'r gweithgareddau gofynnol at ei gilydd oddi tano." **CNC #18**

Darparwyd sylwadau ychwanegol ar fesurau o dan y cwestiwn hwn, er enghraifft:

Mesur 1 – ar ystyried yr angen am newidiadau i ddeddfwriaeth; croesawyd hyn, gan gydnabod yr anawsterau o ran pennu dyletswyddau, rolau a chyfrifoldebau.

Mesur 15 – ar ddiweddarau cyngor cynllunio i sicrhau ei fod yn ategu canllawiau ar lifogydd a data newydd; roedd llawer yn cefnogi hyn, gan gynnwys RTPI.

Mesur 18 – safoni'r gwaith o roi gwybod am lifogydd mewn eiddo; roedd rhai yn cefnogi hyn ond nodwyd bod adnoddau yn rhwystr rhag cyflawni hyn o fewn amserlenni heriol.

Mesur 19 – ar fuddsoddi hirdymor; croesawodd yr ymatebwyr y mesur ond cwestiynwyd y gallu i wneud hynny erbyn 2020, gan nad yw'r holl ddata ar gael eto, yn enwedig ar asedau.

Ystyriwyd bod yr iaith a ddefnyddir mewn rhai mesurau a'r testun ategol yn rhy gwrtais neu oddefol, a gofynnwyd am iaith gryfach pan nodir yr hyn sydd angen ei wneud, er enghraifft o ran pennu rolau, codi ymwybyddiaeth a gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei darparu.

Gofynnodd un ymatebwr i Lywodraeth Cymru ystyried ychwanegu colofn llinell amser at y tabl mesurau ar ddiwedd y ddogfen er mwyn nodi'n glir a oes disgwyl cwblhau gweithgareddau erbyn dyddiad penodol neu a fydd adroddiadau'n parhau i'w llunio'n rheolaidd arnynt.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 2

Er lluniwyd ein mesurau i fod yn glir ac yn gyraeddadwy dros y ddegawd nesaf, mae'r Strategaeth wedi'i llunio gyda golwg strategol ar y tymor hir, gan gydnabod natur perygl llifogydd ac erydu arfordirol mewn cysylltiad â heriau newid hinsawdd. Felly, rydym yn ystyried yr angen am fesurau mwy hirdymor a byddwn yn ystyried sut y gellir eu haddasu. Rydym yn bwriadu defnyddio iaith fwy uniongyrchol lle bo hynny'n briodol ac yn ddefnyddiol.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno ag Amcan A: Gwella ein dealltwriaeth o berygl a sut rydym yn ei gyfleu?

Unrhyw sylwadau am yr amcanion newydd hyn.

Cafwyd 50 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- 44 yn cytuno (88%)
- 6 yn anghytuno (12%)

Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i Amcan A. Cynigiwyd awgrymiadau ynghylch sut y gallem wella ein dealltwriaeth o berygl a'r ffordd rydym yn ei gyfleu, ac maent wedi'u crynhoi isod.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r angen i gyfleu perygl llifogydd ac erydu arfordirol i gymunedau yn glir ac mewn ffordd ystyrlon, er mwyn gwella cydnerthedd a helpu i ysgogi trafodaethau ynghylch sut i'w reoli.

Croesawyd y cynnig i sicrhau bod mapiau Asesu Perygl Llifogydd Cymru (FRAW) ar gael yn ehangach, i wella data ar asedau ac i ddefnyddio gwasanaethau digidol i gyfleu perygl.

Roedd yr ymatebion hefyd yn hoelio sylw ar rinweddau cynlluniau llifogydd cymunedol a defnyddio mesurau llifogydd newydd fel cyfle i estyn allan i'r gymuned cyn dechrau ar waith adeiladu drwy ymgynghori, yn ogystal ag yn ystod y gwaith hwnnw ac ar ôl i'r gwaith ddod i ben, pan fo diddordeb y cyhoedd yn y gwaith ar ei fwyaf. Gall hyn

arwain at gyfleoedd i drafod rhinweddau mesurau lliniaru gwasanaeth a sut y gall Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFA) chwarae rôl.

Darparodd Cyngor Sir Mynwy y sylw a ganlyn:

“Dylai cydweithio agosach rhwng CNC ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i ddatblygu Cynlluniau Llifogydd Cymunedol ac i gysylltu â chymunedau ddod yn rhywbeth cyffredin.”

Cyngor Sir Mynwy #8

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 3

Gyda'r ymgynghoreion yn cadarnhau lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer yr amcan hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod sut y mae gwella ein dealltwriaeth a'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â chymunedau yn hollbwysig o ran lleihau'r perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar draws Cymru.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno ag Amcan D: Atal mwy o bobl rhag dod yn agored i risg?

Unrhyw sylwadau am yr amcanion newydd hyn

Cafwyd 50 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- 45 yn cytuno (90%)
- 5 yn anghytuno (10%)

Roedd y rhan fwyaf o blaid Amcan D, gydag awgrymiadau cadarnhaol yn cael eu cynnig i helpu i oresgyn y rhwystrau canfyddedig. Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi canmol y dull gweithredu integredig a fabwysiadwyd o ran diweddarau'r Strategaeth Genedlaethol a TAN15 ochr yn ochr â'i gilydd. Roedd hyn wedi helpu i gysylltu'r polisïau hyn yn effeithiol.

Cafodd y cysylltiadau at ddefnyddio mapiau llifogydd newydd a Chynlluniau Rheoli Traethlin i wneud penderfyniadau cynllunio mwy gwybodus eu croesawu'n eang. Hoeliwyd sylw hefyd ar y ffaith bod deddfwriaeth newydd a'r defnydd pellach o

Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn gyfle i lywio'r ffordd yr ydym yn meddwl am adnoddau dŵr ac yn eu rheoli.

Awgrymwyd creu cysylltiadau cryfach rhwng Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer SuDS a Chynlluniau Rheoli Traethlin fel rhan o benderfyniadau cynllunio.

Mae enghreifftiau pellach o'r gefnogaeth gyffredinol i'w gweld yn yr ymatebion a ganlyn:

“Mae symud i ffwrdd o ddull rhagofalus tuag at ddull mwy cytbwys sy'n seiliedig ar risg yn synhwyrol.” **Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol # 35**

“Rydym yn croesawu ychwanegu'r Amcan D newydd ac ymdrech adnewyddedig Llywodraeth Cymru i gysylltu Strategaeth FCERN â chynllunio strategol a TAN 15, sy'n dangos ymdrech glir a chydlynol gan adrannau i gydweithio'n agos â'i gilydd” **CLILC # 12**

“Mae'r angen i gysylltu â chymunedau i ddatblygu cynlluniau ymaddasu (yn ogystal â chynlluniau llifogydd cymunedol) yn newid sylweddol ers y Strategaeth Genedlaethol gyntaf ac mae'n dangos bod cydnerthedd hirdymor yn desun pryder.” **Prifysgol East Anglia #22**

“Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn croesawu'r rôl allweddol y mae'r Strategaeth yn ei rhagweld ar gyfer cynllunio defnydd tir o ran osgoi lleoli datblygiadau newydd mewn ardaloedd yr ydym eisoes yn gwybod eu bod yn rhai sy'n agored i berygl llifogydd ac erydu arfordirol. Rydym yn cydnabod y dull holistaidd y mae'r ymgynghoriad yn ceisio ei hybu yng Nghymru”
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru #37

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 4

Mae'r ymatebion a ddaeth i law yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru y bydd symud at ddull Rheoli Risg mwy hirdymor, cydnabod y newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, a gweithio i atal penderfyniadau datblygu yn talu ar ei ganfed o ran lleihau risg yn y dyfodol.

Cwestiwn 5

A yw'r Strategaeth Genedlaethol yn egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol?

Os nad ydyw, sut y gellid ei gwella?

Cafwyd 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- 24 yn cytuno (49%)
- 25 yn anghytuno (51%)

Er bod y safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'u hollti, roedd y sylwadau a gynigwyd yn gadarnhaol ynghylch yr hyn yr oedd angen ei wneud i egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau. Aeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn eu blaen i gynnig sylwadau adeiladol ac i awgrymu gwelliannau i gryfhau'r Strategaeth.

Darparodd Undeb Amaethwyr Cymru yr ymateb a ganlyn:

“Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn egluro'n effeithiol y dyletswyddau a ysgwyddir gan yr amryfal Awdurdodau Rheoli Risg yn ogystal â'r rolau y mae Tirfeddianwyr etc yn gorfod eu chwarae o ran rheoli perygl llifogydd yn lleol.”

Undeb Amaethwyr Cymru #13

Dyweddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

“Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig yn egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau yn well nag o'r blaen, ac mae hynny'n ei gwneud yn fwy defnyddiol nid yn unig i'r Awdurdodau Rheoli Risg ond hefyd i wella dealltwriaeth y cyhoedd.”

Rhondda Cynon Taf #34

Roedd consensws cryf y dylid cydnabod bod angen cydweithio â rhanddeiliaid FCERM ychwanegol a gallai hynny yrru'r Strategaeth yn ei blaen. Roedd y rhain yn cynnwys Grwpiau Arfordirol, Cyngorau Cymuned, Gwirfoddolwyr Cymunedol, yr

Ymddiriedolaeth Genedlaethol, The Canal River Trust, y Gwasanaeth Tân a thirfeddianwyr glannau'r afon.

Dywedodd CLILC:

“Mae'r adran sy'n egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau yn ddefnyddiol ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid o ran perifferi Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ond nid yw'n darparu'r math o eglurhad y gofynnwyd amdano gan ymarferwyr yn Adolygiad Arfordirol 2014.”

CLILC #12

Nododd rhai ymatebwyr er bod y Strategaeth yn gwahaniaethu'n glir rhwng rolau Awdurdodau Rheoli Risg gwahanol, efallai na fydd cyrff allanol yn deall hyn yn glir bob amser.

Nododd Cyngor Sir Dinbych:

“Mae gan Awdurdodau Rheoli Risg bwerau niferus, ond nifer cymharol fach o gyfrifoldebau. Lle y mae ganddynt bwerau, mae diffyg eglurder yn aml ynghylch pa Awdurdod sydd yn y sefyllfa orau i'w harfer. . .”

Cyngor Sir Dinbych #31

Awgrymwyd bod angen eglurder pellach mewn perthynas â phwy sydd berchen ar asedau a'u cyfrifoldeb, ac o ystyried maint a her y perygl arfordirol, mae angen cydnabod rôl Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn well. Roedd llawer yn croesawu'r mesur i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol gyda'r bwriad o wella eglurder a'r cyfrifoldebau.

Darparodd CNC adborth adeiladol ar y rolau a'r pwerau:

“Mae Ffigurau 5 a 6 yn grynodedbau defnyddiol o'r prif grwpiau a'r cysylltiadau rhyngddynt, ac mae'n ymgais ddefnyddiol i grynhoi'r prif bwyntiau sy'n helpu i egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau...” **CNC #18**

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 5

Rydym yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau a ddaeth i law ac yn cydnabod bod y Strategaeth, yn gyffredinol, yn cymryd camau cadarnhaol i egluro rolau. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gallai fynd ymhellach o ran pwysleisio rolau cyrff allanol a chryfhau ei hiaith ynghylch llywodraethu, a'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau a ysgwyddir gan Awdurdodau Rheoli Risg Cymru. Bydd adolygiad o'r ddeddfwriaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol berthnasol yn helpu yn hynny o beth a bydd yn cael ei gynnwys fel mesur.

Cwestiwn 6

A yw'r adran ar Reoli Llifogydd yn Naturiol a chynlluniau hybrid yn pwysleisio eu swyddogaeth o ran rheoli perygl yn ddigonol?

Os nad ydyw, sut y gellid ei gwella?

Cafwyd 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- 27 yn cytuno (60%)
- 18 yn anghytuno (40%)

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid mesurau 12 a 13, ynghyd â'r bwriad i hyrwyddo a chyflenwi mwy o gynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM).

Canmolwyd ein dull o ran ystyried NFM fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a lleihau'r perygl o lifogydd, ond rhybuddiwyd nad ydynt bob tro yn gallu cymryd lle atebion peirianeg galed. Roedd hefyd pryderon ynghylch y ffaith nad yw cynlluniau NFM bob tro yn bodloni'r gofynion cost a budd i gael mynediad i gyllid FCERM.

Roedd sawl ymatebwr wedi cynnig awgrymiadau a gwelliannau:

"Efallai fod angen bod yn wylidwrus o'r ffaith nad yw 'cynlluniau hybrid' yn ychwanegu elfen fach o NFM at seilwaith amddiffyn traddodiadol yn unig...."

Prifysgol East Anglia #22

”Mae cynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol a chynlluniau hybrid yn opsiwn pwysig ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Maent yn dangos ein bod yn meddwl yn agored, am reoli’r dalgyrch yn ei gyfanrwydd, a’r manteision lluosog sy’n gallu arwain at nodau llesiant ac [at reoli adnoddau naturiol yn strategol]. Mae’n gysyniad pwysig yr ydym yn ei gefnogi, ac mae’n rhan ganolog o ddiben craidd CNC. Mae’n bwysig bod y dull holistaidd hwn o feddwl ar draws y dalgyrch yn cael ei hyrwyddo pan fo angen dod o hyd i atebion. Mae’n rhan ganolog o’r Polisi Adnoddau Naturiol, Datganiadau Ardal a’r gwaith o gefnogi cydnerthedd ecosystemau.” **CNC #18**

“Mae’r Strategaeth Genedlaethol yn debygol o sicrhau manteision amgylcheddol ehangach drwy ei ffocws ar NFM. Fodd bynnag, mae dal i fod ansicrwydd ynghylch effeithiau hirdymor NFM a sut y bydd yr amgylchedd yn ymateb. Mae angen monitro ymyriadau NFM yn fwy a chynnal ymchwil iddynt i ddeall yn llwyr fanteision ac effeithiau cynlluniau o’r fath ar gyfer y dyfodol. ”
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf #34

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Roedd yr ymatebion, gan mwyaf, yn cefnogi NFM a’i rôl o ran rheoli risg, gan sicrhau dull o feddwl yn ehangach a manteision lluosog i ddalgyrch yn ei gyfanrwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am ymchwil pellach i ymyriadau NFM, a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu’r sylfaen dystiolaeth angenrheidiol i asesu a chefnogi cynlluniau yn y dyfodol.

Cwestiwn 7

A yw'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi'n glir beth yr ydym yn ei ariannu?

Os nad ydyw, sut y gellid ei gwella?

Cafwyd 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- 30 yn cytuno (67%)
- 15 yn anghytuno (33%)

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y Strategaeth Genedlaethol yn nodi'n glir strategaeth gyllido Llywodraeth Cymru, a'i bod yn cefnogi ymrwymiad hirdymor i gyllido'r gwaith o reoli perygl llifogydd. Gwnaethant hefyd gydnabod bod y strategaeth ddrafft yn cyfleu'n effeithiol y cyfrifoldebau ar gyfer rheoli perygl llifogydd fel bod cymunedau ac unigolion yn gallu deall yn well y math o fesurau a'r ymyriadau ymarferol y bydd y cyllid cysylltiedig yn cael ei ddefnyddio ar eu cyfer.

Roedd y sylwadau yn cynnwys:

"Mae'r ABI yn cefnogi ymrwymiad hirdymor gan y Llywodraeth am gyllid i wneud mwy o waith rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd â pherygl llifogydd, senarios newid hinsawdd a thwf o ran poblogaeth. Mae'n rhaid bod gan y Llywodraeth ymrwymiad hirdymor i gynyddu cyllid cyfalaf a refeniw i amddiffyn cymunedau rhag y bygythiad cynyddol o lifogydd" ABI

#127212581

"Mae cyllid cyfalaf ar gyfer cynlluniau peirianeg galed, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf, yn aml yn cael ei roi'n barod (ac rydym yn ddiolchgar amdano)"

Cyngor Sir Ynys Môn #7

"Mae cyllid hirdymor yn broblem, ac rydym o blaid cynnwys Mesur 19. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'r pwyntiau a wnaed ynghynt yn yr ymateb hwn am yr

Argyfwng Hinsawdd a maint a natur hirdymor yr heriau...” a “*Nodir ei bod yn ofynnol dan Fesur 20 i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol edrych am gyfleoedd [cyllid partneriaeth] ... a chaiff hyn ei groesawu*” **CNC #18**

Cawsom sawl awgrym ac argymhelliad, gan gynnwys:

“Caiff y cynigionar seilwaith gwyrdd-llwyd eu croesawu. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth gyllidol ar gyfer cynnal a chadw cynlluniau presennol a'u gwella'n ôl-weithredol, yn ogystal ag amddiffynfeydd newydd”.

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru #37

“Nid yw'r Strategaeth ddrafft yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o bontio'r bwch o ran cyllid referniw sy'n hanfodol i sicrhau bod gan yr Awdurdodau Rheoli Risg yr adnoddau cywir i ddiogelu ein cymunedau a chyflawni'r gweithgareddau a'r mentrau a gynigir yn y Strategaeth . . .”

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf # 34

“Dylid rhoi eglurhad. . .ynghylch sut y bwriedir cyllido tîm/strwythur FCERM LIC gan (ynghyd â'r Awdurdodau Rheoli Risg) fod pryder ynghylch lleihau adnoddau ar adeg pan fo gofynion beichus a phwysig mewn perthynas â'r Strategaeth a gofynion eraill yn cael eu cyflwyno” **Cyngor Sir Ceredigion #32**

“Mae'n dda bod isadran ar fanteision ehangach a chyfraniadau, ond nid yw hyn yn cysylltu'n llwyr â ffynonellau cyllido eraill, megis o'r sector amaethyddiaeth neu'r sector adfywio” **CNC #18**

Hoeliwyd sylw hefyd ar heriau hirdymor ymaddasu arfordirol a'r anghenion referniw a chyllid cyfalaf cysylltiedig, y tu hwnt i raglenni cyllido hanesyddol:

“Teimlwn fod [ymaddasu arfordirol] yn enghraifft lle y dylai'r Strategaeth ddarparu mwy o uchelgais, gan nodi gweledigaeth ynghylch sut y gallai Cynlluniau Ymaddasu Arfordirol fod yn gatalydd i wneud pethau'n wahanol ac yn arloesol ...” **CIWEM #21**

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 7

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu sut y mae'r Strategaeth Genedlaethol yn esbonio'r trefniadau cyllido yn glir sydd wedi'u gwella yn sgil gwelliannau diweddar megis Canllawiau Achos Busnes FCERM 2018. Gofynnodd sawl ymatebwr i Lywodraeth Cymru archwilio cyfraniadau posibl pellach gan bartneriaid ac anghenion cyllido ehangach i gefnogi gwaith ymaddasu arfordirol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o hoelio mwy o bwyslais ar ddefnyddio referniw mewn gweithgarwch FCERM.

Cwestiwn 8

A oes unrhyw faterion neu dueddiadau allweddol eraill a ddylai gael eu hystyried yn yr SEA yn eich barn chi?

Os oes, eglurwch sut y gellir ei wella.

Cafwyd 41 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- Roedd 19 (46%) o ymatebwyr yn teimlo bod angen ystyried materion neu dueddiadau allweddol eraill.
- Roedd 22 (54%) yn teimlo nad oedd angen ystyried materion neu dueddiadau allweddol eraill.

Mae CNC wedi cynnal asesiad llawn o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) i asesu effeithiau amgylcheddol y Strategaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod modd osgoi effeithiau negyddol na fwriadwyd yn ogystal â nodi'r potensial ar gyfer sicrhau manteision lluosog wrth gyflenwi'r Strategaeth.

Cadarnhaodd yr ymatebwyr fod yr Adroddiad Amgylcheddol (ER) yn gynhwysfawr, yn rhoi cyd-destun defnyddiol a gwybodaeth ategol ac y dylid cyfeirio ato yn y Strategaeth derfynol ei hun. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod Awdurdodau Rheoli Risg yn gallu cymhwyso'r argymhellion yn eu strategaethau, eu cynlluniau a'u prosiectau eu hunain. Mae'r materion a'r tueddiadau allweddol y gellid eu pwysleisio yn yr ER fel a ganlyn:

- Cryfhau sut y caiff ymaddasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd ei ystyried yn y Strategaeth a'r SEA a sut y mae'r dogfennau hyn yn mynd i'r afael ag ef.
- Cydnabod rôl FCERM o ran lleihau'r newid yn yr hinsawdd, yn enwedig lleihau carbon corfforedig mewn prosiectau FCERM a chydabod manteision cynefinoedd penodol fel storffeydd carbon naturiol.
- Dylai'r Strategaeth a'r SEA gyfeirio'n fwy at yr amgylchedd hanesyddol, yn enwedig i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Nododd yr ymatebwyr fod yr SEA newydd yn gynhwysfawr ac yn ymdrin yn gyffredinol â'r effeithiau amgylcheddol sylweddol, sy'n ychwanegu at gyd-destun y Strategaeth ac yn darparu gwybodaeth gefndir dda ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Cwestiynodd un ymatebwr a oedd gorddibyniaeth ar y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd o ran darparu digollediad mewn perthynas â safleoedd gwarchoddedig (Natura 2000, N2K).

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 8

Bydd yr holl ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â SEA/HRA yn cael eu cyhoeddi mewn Datganiad o'r Manylion Amgylcheddol a fydd yn crynhoi sut y mae Llywodraeth Cymru wedi eu hystyried ochr yn ochr â'r ER / HRA terfynol a'r Strategaeth derfynol. Byddwn hefyd yn egluro sut y bydd y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd yn gweithredu.

Cwestiwn 9

A oes effeithiau amgylcheddol ychwanegol (gan gynnwys y rhai ar bobl) y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu'r Strategaeth?

Os oes, eglurwch sut y gellir ei wella.

Cafwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- Roedd 21 (49%) yn cytuno y gellid gwella'r effeithiau amgylcheddol.
- Roedd 22 (51%) yn anghytuno nad oedd angen unrhyw welliant.

Argymhellodd yr ymatebwyr, gan gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru ac Awdurdodau Lleol, fod angen cydnabod effeithiau llifogydd ar iechyd meddwl a llesiant, addysg, cyflogaeth a chymunedau yn fwy yn y Strategaeth a'r Adroddiad Amgylcheddol, a sut y mae gweithgarwch FCERM yn chwarae rôl bositif yn yr holl feysydd hyn.

“Mae gan y defnydd o NFM, SuDS a Seilwaith Gwyrdd ynghyd â mynediad cysylltiedig i fannau agored y potensial o wneud cyfraniad arwyddocaol at gyflawni'r amcanion llesiant. Mae cynyddu'r ffocws ar ddarparu'r atebion hyn yn sicrhau manteision ehangach na lleihau perygl llifogydd/cynyddu cydnerthedd yn unig, ee ansawdd aer, iechyd meddwl / llai o straen, bioamrywiaeth, oeri trefol. Mae hyn yn ymwneud â sawl amcan polisi cynllunio a llesiant.”

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili #26

“Nid yw'r Strategaeth yn sôn am warchod mannau gwyrdd o fewn cymunedau. Mae cynnal amgylchedd iachus nid yn unig yn gwarchod bywyd gwylt ac yn gwella bioamrywiaeth, ond mae hefyd yn gwella llesiant trigolion a chymunedau. Mae llifogydd yn gallu arwain at effeithiau cymdeithasol negyddol ar iechyd meddwl o fewn y cymunedau yr effeithir arnynt, ac felly mae angen i'r Strategaeth gydnabod yn fwy bod angen cynnal a chadw amgylchedd naturiol Cymru i gefnogi'r nodau llesiant ac i wella cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol er mwyn addasu i risgiau a newidiadau yn y dyfodol.”

Rhondda Cynon Taf #34

Croesawyd pwyslais y Strategaeth ar NFM a pheirianeg wyrdd ond nodwyd nad oedd yr asesiad yn ymdrin yn llwyr â'r agweddau cadarnhaol neu negyddol ar dulliau peirianeg galed. Pwysleisiwyd hefyd sut y mae dulliau dalgylch mwy naturiol, megis ailsefydlu ystumiau, yn helpu i wella statws afonydd dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Nododd un ymatebwr sut y dylai SEA gydnabod y risg a berir gan Rywogaethau Estron Goresgynnol wrth ymgymryd â chynlluniau FCERM, gan gynnwys yn yr amgylchedd morol.

Cytunodd CNC â chyfeiriad y Strategaeth mewn perthynas â nodi llinell sylfaen o gynefinoedd arfordirol, ond roedd hefyd yn gofyn am fecanwaith clir ar gyfer adrodd ar gynnydd o ran darparu cynefinoedd cydadferol drwy'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 9

Bydd yr holl ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â SEA/HRA yn cael eu cyhoeddi mewn Datganiad o Fanylion Amgylcheddol a fydd yn crynhoi sut yr ydym wedi'u hystyried ochr yn ochr â'r Adroddiad Amgylcheddol a'r Strategaeth derfynol. Rydym yn bwriadu hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol ar fesurau FCERM lle y mae hynny'n briodol, gan gynnwys y manteision llesiant lluosog sy'n deillio o leihau risg a'r budd ehangach o ddefnyddio dulliau gweithredu dalgylch mwy naturiol.

Cwestiwn 10

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mynegodd sawl ymatebwr ynghylch y ffaith na ddylai'r Strategaeth effeithio'n andwyol ar y gofynion o ran y Gymraeg:

"Nid oes gennym unrhyw sylwadau penodol oni bai bod yn rhaid iddi gyd-fynd â'r fframwaith statudol a sicrhau bod systemau addas yn eu lle i annog a hwyluso cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg." **CLILC #12**

"Mae ymyriadau FRM yn darparu cyfleoedd da i hyrwyddo swyddi lleol sy'n helpu i gryfhau cymunedau, gan gynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith." **CNC #18**

"Mae'r Gymraeg yn cael ei hamddiffyn drwy ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Ddeddf Llesiant. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion ac egwyddorion y ddeddfwriaeth hon a rhagdybir mai'r un yw'r achos ar gyfer Awdurdodau Rheoli Risg eraill".

Cyngor Sir Dinbych #31

Cafwyd sylwadau adeiladol hefyd yn ymwneud â'r niwed posibl a'r angen i fod yn ofalus wrth ymgymryd â gweithgareddau FCERM i osgoi effaith negyddol ar y Gymraeg:

"O ystyried sut y mae effaith y newid yn yr hinsawdd yn gallu disodli cymunedau mawr a bach, mae'n bosibl y bydd disodli'r bobl/cymunedau hyn yn arwain at effaith ieithyddol bosibl. Rhaid cofio bod gan bob cymuned gymeriad

unigryw, felly mae angen asesu ac ymateb drwy gynlluniau gweithredu penodol. Mae hefyd angen bod yn wiliadwrus o'r risgiau i'r economi wledig, megis amaethyddiaeth, a allai yn ddoï hun, effeithio'n negyddol ar yr iaith Gymraeg."

Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd #25

"Mae angen i'r fframwaith ddiogelu cynaliadwyedd ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r gymuned; a thrwy hynny gwarchod iechyddol a llesiant y cymunedau hyn . . ."

"Dylai'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol sicrhau bod polisiau ac ymyriadau yn nodi proffil ieithyddol cymunedau, a rhoi yn eu lle ymyriadau sy'n diogelu natur ieithyddol a threftadaeth y gymuned honno"

Cyngor Sir Ceredigion #32

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 10

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y Gymraeg yn parhau i fod yn hollbwysig mewn pob cymuned. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i roi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob sefydliad cyhoeddus gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wrth gyfathrebu am berygl llifogydd a gwybodaeth ategol yn allanol.

Cwestiwn 11

Eglurwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y Strategaeth Genedlaethol er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o effeithiau positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd 18 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebion yr angen i fodloni'r safonau presennol neu'r pwysigrwydd o allu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg:

“Mae Ffigur 3 yn adolygu pob nod llesiant, ac eithrio diwylliant a'r Gymraeg, am nad ydynt wedi'u cynnwys. Rhaid mynd i'r afael â hyn i ddangos bod yr holl nodau llesiant yn cael eu hystyried....” **Prifysgol East Anglia #22**

“Mae'n hanfodol bod mwy [o swyddogion] yn gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu, bydd sicrhau hynny'n gwella dealltwiaeth ac yn rhoi mwy o werth i'r ddogfen yn ei chyfanrwydd ac yn sicrhau bod ei phrif amcanion yn cael cymaint o fudd â phosibl.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd #25**

“Dylai'r Strategaeth gyfrannu at barhad a thwf yr iaith Gymraeg, fel iaith y teulu a'r gymuned [a] rhoi dewis i ddefnyddwyr o wasanaeth yn Gymraeg...”
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru #37

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 11

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gan bobl y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ac i wneud yn siŵr nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 12

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi

Cafwyd 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd y cwestiwn olaf yn gyfle i'r ymatebwyr godi unrhyw faterion nad ymdriniwyd â hwy yn y cwestiynau blaenorol. Cafwyd 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai ohonynt yn ymwneud â phentref Fairbourne, ac yn trafod amrywiaeth o faterion ynghylch sut y gallai'r Strategaeth gefnogi cymunedau o'r fath. Nid yw'r Strategaeth yn manylu opsiynau nac atebion penodol ar gyfer lleihau risg i gymunedau unigol. Yn hytrach, mae'r Strategaeth wedi'i llunio i gadarnhau'r fframwaith polisi cyffredinol, gan alluogi Awdurdodau Rheoli Risg Cymru i ystyried yn llawn yr holl opsiynau posibl wrth benderfynu sut i reoli risg mewn cymunedau, wrth ymgynghori â thrigolion. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau a'r cyfraniad pwysig y maent yn parhau i'w wneud o ran ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â Fairbourne.

O'r sylwadau eraill sydd wedi dod i law, roedd llawer ohonynt yn llai arwyddocaol a byddwn yn bwrw ymlaen â hwy wrth i'r gwaith o fireinio'r strategaeth derfynol fynd rhagddo. Rydym wedi crynhoi'r sylwadau hynny a wnaeth dynnu sylw at themâu pwysig isod.

Ystyriwyd bod eglurder y polisi cynllunio yn bwysig i reoli datblygiadau mewn ardaloedd â pherygl llifogydd yn ogystal â'r angen i gydnabod effaith ar y cyd datblygiadau bach ar y gorlifdir. Yn benodol, roedd rhai wedi tynnu sylw at y ffaith na ddylid caniatáu datblygiadau tai fforddiadwy mewn ardaloedd sydd â pherygl llifogydd, lle y mae'r rheini sydd llai abl i fforddio ymdrin â llifogydd yn wynebu'r perygl mwyaf o bosibl.

Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau a wnaed ynghynt yn eu cyfraniadau: bod angen cynnydd parhaus yng ngwariant y Llywodraeth, a hynny o safbwynt refeniw a chyfalaf, i gynnal asedau presennol yn ogystal â datblygu rhai newydd.

Awgrymodd yr ymatebwyr yr angen i gydweithio ar draws ffiniau, er enghraifft, wrth ddiweddarau Cynlluniau Rheoli Traethlin.

Roedd rhai yn cefnogi bod angen i ddata am lifogydd fod ar gael yn ehangach ac i bawb, gan gynnwys y Gronfa Ddata Asedau Cenedlaethol.

Roedd sawl ymatebwr yn dymuno gweld ymaddasu yn chwarae mwy o rôl yn y Strategaeth, gan gydnabod y bydd llifogydd yn mynd yn fwy difrifol ac yn digwydd yn amlach yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi nodi bod yr iaith a ddefnyddir mewn rhai mesurau ac amcanion yn rhoi gormod o bwyslais ar ddyhead yn hytrach na bod yn uniongyrchol. Er enghraifft, roedd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn teimlo nad oedd y ffaith bod LIC yn 'annog' arferion rheoli tir er mwyn lleihau dŵr ffo yn ddigon cryf mewn perthynas â NFM.

Roedd rhai yn cefnogi cynlluniau FCERM i wella'r gwaith o greu lleoedd ac i sicrhau eu bod yn cyfrannu gymaint â phosibl at hyfrydwch lleol. Gwelwyd hyn yn fecanwaith pwysig i gynnal trafodaethau gyda chymunedau ynghylch cyd-ddylunio cynlluniau lliniaru llifogydd.

Mynegwyd bod angen mwy o bwyslais ar SuDS, yn enwedig i hyrwyddo ôl-osod SuDS.

Cefnogwyd hefyd fod angen i fwy o wybodaeth barod am berygl llifogydd, a materion o ran perchnogaeth glannau'r afon, fod ar gael i bobl sy'n prynu a thenantiaid.

Mynegodd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol sut:

“y bydd llwyddiant y Strategaeth yn dibynnu ar effeithiolrwydd prosesau rheoli strategol ac arweinyddiaeth i yrru'r gwaith o'i chyflenwi, ynghyd â datblygu sefydliadol strategol. Bydd y Pwyllgor yn ceisio cyfrannu ei hun at y ffactorau hyn er mwyn cynnal lefelau uchel o hyder y gall y Strategaeth gael ei gweithredu'n llwyddiannus.” FCEC #19

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 12

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o nodi'r sylwadau cadarnhaol am y Strategaeth ddrafft a bydd yn ystyried yr awgrymiadau i gryfhau neu egluro ei chynnwys i wella'r ddogfen ac i esbonio'n well sut y bydd yn mynd i'r afael â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol.